# PWYLLGOR SAFONAU 23 Mehefin, 2009

**YN BRESENNOL: AELOD ETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Keith Greenly Jones.

**AELODAU ANNIBYNNOL:** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis-Evans, Mr Malcolm Jones a Mr Sam Soysa.

**AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL:** Mr David Clay

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Margaret Griffith a Stephen Churchman

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 15 Mai, 2009, fel rhai cywir.

## 3. MATER YN CODI O'R COFNODION

Cadarnhaodd y Swyddog Priodoldeb fod bwriad i gynnal gwrandawiad y dydd Gwener canlynol i ystyried honiad yn erbyn aelod o gyngor cymuned a gyhuddwyd o ysgrifennu llythyr maleisus, difenwol, gwahaniaethol a ffeithiol anghywir at weinidog o Lywodraeth y Cynulliad.

Nododd yr Aelod Pwyllgor Cymunedol ei fwriad i fynychu'r gwrandawiad.

Cyfeiriodd y Swyddog Priodoldeb ymhellach at y camau sy'n cael eu cymryd ar gyfer penodi aelod annibynnol newydd i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau. Cadarnhaodd hefyd fod Dr Ian Rees wedi cytuno i fod yn aelod o'r panel cyfweld fel aelod lleyg.

Y bwriad yw cyflwyno penderfyniad y Panel er cadarnhad gan y Cyngor llawn ar 22 Hydref, 2009.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 4. TREFN AR GYFER HONIADAU O DORRI'R PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn tynnu sylw arbennig at faterion o fewn y Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog a gryfhawyd ar gais aelodau'r pwyllgor hwn.

Ynghyd â'r cyflwyniad rhoddwyd gwybodaeth gysylltiedig â'r materion canlynol:

- Cyngor Swyddogion i aelodau
- Gwasanaethau cefnogol i aelodau a grwpiau gwleidyddol
- Mynediad aelodau at wybodaeth a swyddogion
- Hawliau aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor
- Perthnasau Swyddog/Cadeirydd/Arweinydd Portffolio
- Gohebiaeth
- Cynnwys Cynghorwyr Wardiau
- Torri'r Protocol

O ystyried materion diwygiedig o fewn y Protocol, cyfeiriodd y Swyddog Monitro yn arbennig at achosion posib o fwlio neu harasio a nododd yr anhawster o osod llinyn mesur ar hyn. Ychwanegodd ei bod wedi cael barn Uwch Swyddogion a'u bod yn awyddus i sicrhau na fyddai swyddogion yn cael eu henwi pe byddai cwyn yn cael ei lleisio yn eu herbyn yn gyhoeddus.

'Roedd yr Uwch Swyddogion yn ystyried y dylai'r rhan yma o'r protocol gael ei gysylltu ag enwi swyddogion mewn pwyllgor yn y wasg neu mewn e-byst. Penderfynodd aelodau'r Pwyllgor Safonau y dylid ymestyn y cymal i gynnwys y geiriau ' neu mewn unrhyw fodd arall'.

Nodwyd ymhellach yn y Protocol diwygiedig, yn unol â chais y pwyllgor hwn, 'na ddylai aelod roi swyddogion dan bwysau amhriodol i weithredu yn unol â dymuniadau'r aelod a bydd swyddog bob amser yn rhydd i gynnig barn broffesiynol sy'n groes i farn yr aelod.'
Cadarnhaodd yr aelodau fod yr ychwanegiad yma yn dderbyniol.

'Roedd awgrym yn y Protocol diwygiedig y dylai aelod gyflwyno ei hun bob amser wrth y dderbynfa gan ofyn am y swyddog dan sylw. Penderfynodd aelodau'r pwyllgor hwn y dylid gwneud hyn 'ble bynnag fo hynny yn ymarferol.'

Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r drefn o ymdrin â honiadau fod aelod wedi torri'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog.

Er na fyddai'n rhaid dilyn y drefn fesul cam, nodwyd y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i ddatrys y mater yn ddiymdroi. Y cam terfynol yw gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Byddai modd i'r Pwyllgor ddod i un o'r penderfyniadau canlynol:

- Nad oes sail i'r honiad
- Bod sail i'r honiad, ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach
- Bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r aelod

Esboniwyd ymhellach nad oes dim yn y drefn yn atal hawl swyddog rhag cyflwyno cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Cyfeiriwyd at y modd y gallasai ymddiheuriad ddatrys unrhyw fater, a mynegwyd peth amheuaeth ynglŷn â phryd y byddai ymddiheuriad yn

dderbyniol. Nodwyd hefyd y gallasai ymddiheuriad fod yn rhan o gerydd.

Cytunwyd y gallasai'r Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ystyried yr angen i gyflwyno'r mater i'r Pwyllgor Safonau pe byddai ymddiheuriad yn cael ei chyflwyno ar adeg ddiweddar yn ystod y broses ddisgyblu.

**PENDERFYNWYD:**
**i) Argymell y Protocol diwygiedig, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor hwn, i'w fabwysiadu gan y Cyngor llawn**
**ii) Argymell y drefn ar gyfer ymdrin â honiadau o dorri'r Protocol i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu.**

**5. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad, er gwybodaeth, gan y Swyddog Priodoldeb yn rhoi crynodeb o'r honiadau.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at ddatblygiadau parthed un honiad arbennig – (Cyfeirnod Ombwdsmon 200802366).

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r honiad fod cynghorydd wedi anfon e-bost at yr achwynydd gan ddefnyddio gair anweddus wrth gyfeirio ato. O ganlyniad, apeliodd yr achwynydd wrth yr Ombwdsmon. Cadarnhaodd yr Ombwdsmon ei benderfyniad gwreiddiol, ond dywedodd y byddai'n ysgrifennu at y cynghorydd yn egluro nad oedd ei ymddygiad yn dderbyniol ac y byddai'n cael ei gadw mewn golwg pe bai unrhyw gwyn arall yn codi yn y dyfodol.

Nododd y Swyddog Monitro fod hyn yn enghraifft o sut y gall yr Ombwdsmon ymateb i apêl.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**